Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

# Crynodeb Blynyddol o Weithgarwch Craffu a Goruchwylio

## Ebrill 2021 – Ebrill 2022

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

## Cyflwyniad

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ddyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddwyn Heddlu De Cymru i gyfrif ar ran y cyhoedd. Mae'n gweithio i sicrhau bod yr heddlu'n gweithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon drwy gydweithio â'r Prif Gwnstabl, gyda'r nod o ddarparu'r gwasanaeth heddlu gorau posibl i Dde Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau bod proses ffurfiol i graffu ar yr heddlu yn mynd rhagddi drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â'r cyswllt wythnosol sydd ganddo â'r Prif Swyddogion yn yr heddlu, mae'r Comisiynydd yn cadeirio Bwrdd Strategol ar sail chwarterol. Bydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn ffurfiol mewn perthynas â lleihau troseddu, perfformiad yr heddlu, a chyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Ceir rhagor o fanylion ar y trefniadau hyn yn y Llawlyfr Llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol y cytunwyd arnynt ar y cyd.

Yn ogystal â'r Bwrdd hwn, mae'r Comisiynydd wedi sefydlu rhaglen graffu, sy'n golygu y gellir goruchwylio materion plismona a'r gallu i weithredu fel cyfaill beirniadol mewn modd manwl a pharhaus. Caiff y rhaglen ei chyflawni drwy amrywiaeth o grwpiau, cyfarfodydd a gweithgareddau, gyda'r diben o sicrhau y gellir cynnig her feirniadol ac adeiladol ac y gellir sicrhau gwelliannau cadarnhaol pan fo angen.

Yn ystod y flwyddyn, roedd ffocws trwm a pharhaus ar gydraddoldeb, cynhwysiant, a chydlyniant cymunedol, oherwydd y digwyddiadau proffil uchel parhaus sydd wedi effeithio ar blismona dros y blynyddoedd diwethaf, yn genedlaethol ac yn Ne Cymru. Mae hyn yn dal i arwain at ffocws ychwanegol sylweddol ar y meysydd hyn yn rôl oruchwylio'r Comisiynydd. Mae tîm y Comisiynydd hefyd wedi cymryd rhan sylweddol mewn gwaith Cymru gyfan yn ystod y flwyddyn i ddatblygu Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol a fydd yn goruchwylio gwaith gwrth-hiliaeth pob asiantaeth cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Caiff y panel ei benodi yn 2022.

**Mae'r crynodeb blynyddol hwn yn amlinellu'r gweithgarwch a gynhaliwyd drwy raglen graffu'r Comisiynydd yn y flwyddyn ariannol 2021-2022.**

## Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Mae'r Bwrdd hwn yn cwrdd bob chwe wythnos a chaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Mae pob cyfarfod arall yn cynnwys pwnc 'at wraidd y mater' ar gyfer craffu, sy'n sicrhau y gellir cynnal dadansoddiad manwl o bwnc plismona penodol.

Mae tîm y Comisiynydd yn sicrhau y gall asiantaethau partner, dioddefwyr troseddau, a'r cyhoedd ehangach, roi cymaint o adborth ag y bo modd. Nodir y pynciau at wraidd y mater a drafodwyd yn ystod 2021-22 isod.

**Amddiffyn a Diogelu Plant (Mai 2021)**

Yr Hyn a Ystyriwyd

Ystyriwyd data'r heddlu mewn perthynas ag amddiffyn plant gan y Bwrdd, a oedd yn cynnwys data ar nifer y troseddau a digwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, cyfraddau canlyniadau troseddau, a nifer yr atgyfeiriadau o Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a wneir. Hefyd, ystyriodd tîm y Comisiynydd y camau gweithredu yr oedd yr heddlu'n eu cymryd i atal achosion o gamfanteisio ar blant a cham-drin plant. Siaradodd y tîm hefyd ag asiantaethau partner sy'n cefnogi plant sydd wedi cael eu cam-drin, gan eu gwahodd i rannu eu safbwyntiau ar y modd y buont yn rhyngweithio â Heddlu De Cymru. Aeth un sefydliad partner i gyfarfod y Bwrdd i roi adborth yn uniongyrchol.

Materion a Nodwyd

Y materion allweddol a gododd yn ystod y gwaith o fynd at wraidd y mater oedd:

- Bod y broses o adrodd ar ddigwyddiadau wedi bod yn gymharol gyson ers 2016, a gwelwyd y nifer uchaf o adroddiadau yn 2019, a gostyngiad yn 2020.
- Bod y gyfradd canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau amddiffyn plant wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall ers 2016.
- Y gwelwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau a throseddau â chymwysyddion 'cam-drin plant yn rhywiol'.
- Bod nifer yr achosion o blant coll wedi bod yn gymharol gyson rhwng 2016 a 2019, ac y gwelwyd y nifer uchaf yn 2018, a gostyngiad yn 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19 mae'n debyg.
- Bod yr heddlu wedi bod yn gwella'r defnydd o faneri a chymwysyddion lleol er mwyn sicrhau bod systemau'r heddlu yn gyson ac yn gywir.
- Bod asiantaethau partner sy'n gweithio gyda dioddefwyr a'u teuluoedd wedi tynnu sylw at y ffaith bod diffyg diweddariadau gan yr heddlu wedi cael effaith ar iechyd meddwl a llesiant y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt.
- Bod asiantaethau partner sy'n gweithio gyda dioddefwyr o'r farn y gellid gwella'r broses o gwblhau Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd, ac y gall fod

angen codi mwy o ymwybyddiaeth o brosesau a dulliau atgyfeirio ymysg swyddogion.

Argymhellion Tîm y Comisiynydd

Gwnaed nifer o argymhellion i'r heddlu ar ôl y gwaith o fynd at wraidd y mater, gan gynnwys:

- Y dylai'r heddlu barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod swyddogion yn cwblhau Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd mewn modd cywir a manwl, i wirio manylion samplau ar hap o Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd sydd wedi'u cwblhau, ac i adrodd yn ôl i dîm y Comisiynydd gyda'u canfyddiadau.
- Y dylai'r heddlu gynnal proses codi ymwybyddiaeth fewnol i sicrhau bod swyddogion yn cael eu hysbysu am wasanaethau atgyfeirio i ddioddefwyr sy'n blant a'u teuluoedd, a'u bod yn gallu defnyddio'r rhain ar unwaith.
- Y dylai'r heddlu godi ymwybyddiaeth o opsiynau amddiffyn fel Hysbysiadau Amddiffyn Herwgydio Plant.
- Y dylai gwaith i amddiffyn plant yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys gwaith a gaiff ei gomisiynu, gael ei lywio gan brofiadau ddioddefwyr sy'n blant a phartneriaid.

## Rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) wrth Sicrhau Diogelwch Cymunedol a Phlismona yn y Gymdogaeth yn Heddlu De Cymru (Awst 2021)

Yr Hyn a Ystyriwyd

Ystyriodd tîm y Comisiynydd safbwyntiau PCSOs ynghylch eu rolau a'r modd y cawsant eu defnyddio, drwy arolwg y cawsant wahoddiad i'w gwblhau. Gwahoddwyd Cynghorwyr Lleol o bob rhan o ardal yr heddlu hefyd i rannu eu safbwyntiau drwy arolwg, gan amlinellu'r modd roeddent yn teimlo am eu cydberthynas â'u PCSOs lleol a'r ffordd roeddent yn rhan o'r ardal leol. Ystyriwyd demograffeg yr heddlu ar PCSOs, ynghyd â'r defnydd o PCSOs hefyd, a thystiolaeth o fentrau lleol ac achosion diweddar pan wnaeth PCSOs ddatrys problemau cymunedol.

Materion a Nodwyd

Y materion allweddol a gododd yn ystod y gwaith o fynd at wraidd y mater oedd:

- Bod mwy na hanner y Cynghorwyr a gyfrannodd at yr adolygiad wedi rhoi sylwadau cadarnhaol am eu PCSOs lleol a pha mor rhagweithiol oeddent. Ystyriwyd bod PCSOs yn gysylltiadau plismona pwysig yn y gymuned, ac roedd llawer yn llawn canmoliaeth o ymdrechion y PCSOs i ddod â chymunedau ynghyd a datrys problemau mewn perthynas â materion lleol.

- Bod Cynghorwyr yn ystyried bod PCSOs yn werthfawr o ran dangos presenoldeb yr heddlu i gymunedau.
- Bod y gydberthynas rhwng y Cynghorydd lleol a PCSO lleol wedi effeithio ar y modd yr eir i'r afael â phryderon plismona lleol.
- Oherwydd gofynion plismona, roedd Cynghorwyr a PCSOs eu hunain yn teimlo'n rhwystredig bod PCSOs yn aml yn cael eu dargyfeirio i wneud gwaith plismona a oedd yn eu tynnu oddi wrth eu prif ddiben o gyflawni plismona yn y gymdogaeth a diogelwch cymunedol.
- Na all Cynghorwyr na'r cyhoedd gysylltu'n bersonol â PCSOs mwyach. Ystyriwyd bod y newid hwn yn gam yn ôl.
- Bod PCSOs yn parhau i frwydro â chamddealltwriaeth parhaus o'u rolau a rhywfaint o ymdeimlad cymunedol bod eu pwerau'n gyfyngedig.
- Yr ystyrir bod PCSOs yn cyfrannu at waith atal troseddau a datrys problemau gwych yn eu hardaloedd.

Argymhellion Tîm y Comisiynydd

Gwnaed nifer o argymhellion i'r heddlu ar ôl y gwaith o fynd at wraidd y mater, gan gynnwys:

- Y dylid uwchgyfeirio rhai o'r pryderon sy'n ymwneud â defnyddio PCSOs a phennu eu tasgau, ynghyd â phryderon am hygyrchedd PCSOs a pha mor rhwydd y gellir cysylltu â nhw, er mwyn eu datrys. Arweiniodd hyn at benderfyniad gan Fwrdd Strategol y Comisiynydd i adsefydlu cyswllt personol rhwng PCSOs a Chynghorwyr er budd diogelwch y gymuned.
- Y dylid defnyddio rôl staff yr heddlu newydd y disgwylid iddi gael ei sefydlu i gydlynu gwaith diogelwch a chydlyniant cymunedol ym mhob rhan o'r heddlu hefyd i sicrhau dull cyson o ddefnyddio a rheoli PCSOs. Trafodwyd hyn a chytunwyd arno hefyd yng nghyfarfod Bwrdd Strategol y Comisiynydd.
- Y dylid datblygu'r materion a godwyd yn ystod y gwaith o fynd at wraidd y mater fel rhan o Strategaeth Plismona yn y Gymdogaeth yr heddlu a'u hadolygu'n rheolaidd.

**Troseddau Cyllyll (Tachwedd 2011)**

Yr Hyn a Ystyriwyd

Ystyriodd tîm y Comisiynydd safbwyntiau pobl ifanc mewn perthynas â throseddau cyllyll drwy Sgyrsiau Lleisiau Ifanc y Comisiynydd. Ystyriwyd safbwyntiau'r cyhoedd ehangach hefyd gan ddefnyddio'r ymatebion i'r arolwg cyhoeddus diweddaraf mewn perthynas â throseddau cyllyll ac ystyriwyd ymatebion i'r ymgynghoriad cymunedol o ymarferion ymgysylltu. Cafodd data yr heddlu a strategaethau cyfathrebu eu hadolygu fel rhan o'r gwaith, ac ystyriwyd y mentrau ehangach a gynhaliwyd gan yr Uned Atal Trais. Ystyriwyd yr elfennau o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru

Gyfan sy'n ymwneud â throseddau cyllyll hefyd a cheisiwyd safbwyntiau'r rheini sy'n rhan o'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen.

Materion a Nodwyd

Y materion allweddol a gododd yn ystod y gwaith o fynd at wraidd y mater oedd:

- Bod gwahaniaethau rhwng canfyddiad y cyhoedd a realiti mewn perthynas â chyffredinrwydd troseddau cyllyll. Roedd y data'n dangos gostyngiad mewn troseddau cyllyll ond roedd aelodau o'r gymuned yn aml yn tybio ei fod yn cynyddu. Mewn gwirionedd, gwelwyd gostyngiad o 35% mewn troseddau cyllyll dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Bod rhai pobl ifanc yn ofni troseddau cyllyll ac yn teimlo y gall fod angen iddynt gario cyllell os bydd pobl eraill yn gwneud hynny. Fodd bynnag, yn aml roedd y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol yn dylanwadu ar ganfyddiadau o gyffredinrwydd, yn hytrach na gwybodaeth am y defnydd o gyllyll yn yr ardal leol.
- Bod gan 71% o droseddwyr cyllyll yn Ne Cymru farcwyr rhybudd iechyd meddwl neu gyffuriau a bod tua 70% o ddioddefwyr yn hysbys i'r heddlu.
- Bod troseddau cyllyll yn tueddu i fod yn gysylltiedig â marchnadoedd cyffuriau, gan gynnwys Llinellau Cyffuriau, ynghyd â bregusrwydd ar y stryd a diwylliant pobl ifanc. Roedd amddifadedd hefyd yn ffactor yn yr ardaloedd lle'r oedd troseddau cyllyll yn dueddol o ddigwydd.
- Y dylid adolygu'r mewnbwn ar droseddau cyllyll yn y Rhaglen Graidd Ysgolion yn ddelfrydol a'i bod yn bwysig ystyried safbwyntiau pobl ifanc wrth greu cynnwys.
- Bod mentrau atal a dargyfeirio gwych ar waith, gan gynnwys drwy'r uned Atal Trais ac mewn cydweithrediad ag amrywiaeth o bartneriaid.
- Bod anawsterau parhaus o ran gwybod sut i gydbwyso codi ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll er mwyn ei atal, heb gynyddu'r ofn ohonynt.

Argymhellion Tîm y Comisiynydd

Gwnaed nifer o argymhellion i'r heddlu ar ôl y gwaith o fynd at wraidd y mater, gan gynnwys:

- Y dylid ystyried strategaeth gyfathrebu a/neu ymgysylltu ar y cyd, i gyfleu'r negeseuon rhoi sicrwydd sydd eu hangen ynghylch troseddau cyllyll yn Ne Cymru. Dylid teilwra hyn yn briodol i anghenion cynulleidfaoedd, gan gynnwys anghenion pobl ifanc.
- Ei bod yn bwysig ailbwysleisio rôl asiantaethau partner wrth atal troseddau cyllyll ac i gydlynu rhagor o waith partneriaeth drwy gylch gwaith y Comisiynydd.

- Y dylid adolygu mewnbwn ar droseddau cyllyll a thrais yn Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn rheolaidd a'i ddiweddaru, gyda mewnbwn ar yr adolygiad gan yr Uned Atal Trais.

**Cynnydd o ran Cydraddoldeb Hiliol (Ebrill 2022 – gohiriwyd o Chwefror 2022)**

Yr Hyn a Ystyriwyd

Cynhaliodd tîm y Comisiynydd ymchwil ymhlith swyddogion a staff yr heddlu i ystyried eu safbwyntiau a'u hymwybyddiaeth mewn perthynas â gwaith yr heddlu ar gydraddoldeb hiliol a mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu ar sail hil. Hefyd, ystyriodd y tîm amrywiaeth o ddata sy'n ymwneud ag anghymesuredd hiliol, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn perthynas â gwaith yr heddlu o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd.

Materion a Nodwyd

Y materion allweddol a gododd yn ystod y gwaith o fynd at wraidd y mater oedd:

- Bod yr holl swyddogion a staff a roddodd fewnbwn i'r gwaith ymchwil o'r farn ei bod yn bwysig i'r heddlu gymryd dull gweithredu gwrth-hiliol ac i weithio er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Roedd y mwyafrif hefyd yn credu eu bod yn gyfrifol yn bersonol am hyrwyddo a chynnal cydraddoldeb hiliol yn eu rolau.
- Bod cyfraddau anghymesuredd hiliol ar gyfer stopio a chwilio a'r defnydd o rym wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac y gwelwyd mwy o ymdrech i wella atebolrwydd yn y maes hwn.
- Bod yr heddlu wedi cyflwyno prosesau llywodraethu newydd a gwell, ac wedi buddsoddi adnoddau ychwanegol, er mwyn gwneud cynnydd yn ei waith cydraddoldeb hiliol ac olrhain y cynnydd hwn.
- Er y gwnaed ymdrechion i ddechrau gwneud cynnydd o ran yr ymrwymiadau yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd, roedd rhai bylchau o ran cynnydd yn parhau, ac roedd angen cydlynu'r ddarpariaeth yn well.
- Bod angen parhaus i fynd i'r afael â'r diffyg dealltwriaeth o hiliaeth yn fewnol a'r angen am gamau gweithredu cadarnhaol mewn prosesau cyflogaeth. Roedd gan rai swyddogion a staff ddiffyg gwybodaeth am y materion hyn ac ymwybyddiaeth ohonynt o hyd.
- Bod angen sefydlu proses monitro perfformiad o ran cyflawni Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd i sicrhau bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud a'i fod yn trosi yn newid dilys ym mhob maes.

Argymhellion Tîm y Comisiynydd

Gwnaed nifer o argymhellion i'r heddlu ar ôl y gwaith o fynd at wraidd y mater, gan gynnwys:

- Y dylai'r heddlu weithio tuag at newid sylweddol yn yr holl brosesau cynllunio, adolygu a gweithredu polisïau a darparu gwasanaethau ym mhob rhan o'r heddlu, gan sicrhau y caiff lens gwrth-hiliaeth ei ddefnyddio.
- Y dylid adolygu a diwygio'r cynllun prosiect sy'n sail i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y camau gweithredu mwyaf priodol ac effeithiol i arwain y llwyddiant sy'n ofynnol ym mhob maes.
- Y dylid cadarnhau Fframwaith Canlyniadau, a chytuno ar broses adrodd, sy'n sicrhau y gellir olrhain cynnydd yn erbyn pob maes allweddol yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd.
- Y dylai tîm y Comisiynydd wneud gwaith mynd i'r afael â'r mater ar feysydd penodol yn y Cynllun a bod yn rhan o'r grŵp monitro mewnol er mwyn datblygu hyn.

**Gwaith Craffu Ychwanegol gan y Bwrdd**

Yn ogystal â phynciau mynd at wraidd mater, cynhaliodd y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd waith craffu ar faterion plismona eraill yn ystod 2021/22. Roedd hyn yn cynnwys:

Amseroedd ymateb yn y Ganolfan Galwadau 101 a 999

Trafododd y Bwrdd broblem amseroedd aros oedd yn cynyddu ar gyfer aelodau'r cyhoedd oherwydd y galw. Roedd yr amseroedd aros ym mis Awst 2021 ar eu lefelau uchaf erioed. Trafododd y Bwrdd y cynlluniau sydd ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys recriwtio 20 o staff ychwanegol, a'r angen i ystyried sut i fynd i'r afael â galw anfwriadol, fel rhoi diweddariadau i ddioddefwyr cyn bod angen iddynt ffonio i mewn i'w cael.

Y Defnydd o Farcwyr Iechyd Meddwl ar Systemau'r Heddlu

Cododd tîm y Comisiynydd y defnydd o farcwyr iechyd meddwl mewn perthynas â phobl ar systemau'r heddlu. Roedd gan nifer fawr o bobl ar y systemau farcwyr a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod ganddynt anghenion iechyd meddwl, ond anaml y byddent yn cael eu hadolygu na'u dileu. Trafododd y Bwrdd oblygiadau peidio â chael systemau ar waith i adolygu'r marcwyr gan y gallent arwain at ganlyniadau i unigolion y tu allan i blismona, er enghraifft, pan gynhaliwyd gwiriadau uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cytunodd yr heddlu i adolygu'r defnydd o farcwyr iechyd meddwl fel rhan o'i waith ehangach ar y defnydd o farcwyr ar systemau'r heddlu.

Y Defnydd o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Adolygodd y Bwrdd rai o'r materion a oedd wedi codi yn ystod cyfarfodydd o'r 'Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys'. Roedd pryderon nad oedd swyddogion bob amser yn cofnodi'r rhesymeg dros ddefnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys wrth ddelio â throseddau, ac mewn rhai achosion, roedd y penderfyniad i'w defnyddio wedi cael ei gwestiynu. Cytunodd y Bwrdd bod angen monitro hyn yn agosach a gweithredu arno, ac y dylai'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys barhau i rannu pryderon â'r Bwrdd Craffu.

## Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG)

Mae PALG wedi cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr y Comisiynydd ers iddo gael ei sefydlu yn 2017. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter ac mae'n cynnwys sefydliadau partner allanol ac aelodau cymunedol annibynnol sy'n helpu tîm y Comisiynydd i roi safbwynt cyfaill beirniadol o berfformiad ac arferion yr heddlu.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwnaed y penderfyniad i benodi Cadeirydd annibynnol o blith aelodau cymunedol annibynnol y grŵp. Gwnaed hyn drwy broses bleidleisio, ac ar ddechrau 2021, cymerodd Cadeirydd annibynnol newydd y rôl drosodd er mwyn gwella annibyniaeth a thryloywder y grŵp.

Yn ystod 2021/22, ystyriodd y grŵp nifer o faterion, gan gynnwys:

Troseddau Casineb Ar-lein

Trafododd y grŵp y modd y mae Heddlu De Cymru yn delio â throseddau casineb ar-lein ac ystyriodd yr heriau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â'r math hwn o droseddau. Rhoddwyd ystyriaeth i'r angen i annog aelodau'r cyhoedd i roi gwybod i'r heddlu yn uniongyrchol am y digwyddiadau hyn, a chafodd y grŵp sicrwydd bod yr heddlu'n delio â digwyddiadau o'r fath o ddifrif.

Ymateb yr Heddlu i Densiynau Cymunedol

Trafododd y grŵp ymateb yr heddlu i nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau ar yr angen am ymgysylltu cymunedol parhaus a meithrin hyder ymysg grwpiau ethnig leiafrifol oherwydd achosion parhaus. Aeth y grŵp ati hefyd i asesu'n feirniadol ymateb yr heddlu i ddigwyddiad terfysg Mayhill yn Abertawe ym mis Mai 2021.

Gwaith Heddlu De Cymru i Gyflawni Gweithlu Cynrychioliadol

Ymgynghorwyd â'r grŵp ar gynigion i ddatblygu gwaith gweithredu cadarnhaol yr heddlu i wella'r gynrychiolaeth o staff a swyddogion ethnig leiafrifol. Trafododd y grŵp y rhwystrau parhaus sy'n atal pobl ethnig leiafrifol rhag gwneud cais i weithio

yn yr heddlu, a phwysleisiwyd pwysigrwydd gweithio ar fentrau cadw a gwneud cynnydd mewnol.

Camfanteisio'n Rhywiol

Trafododd y grŵp y modd y mae'r heddlu'n delio ag adroddiadau gan y cyhoedd am fregusrwydd ac achosion o gamfanteisio ymysg menywod ifanc a merched. Amlinellodd yr heddlu ei ddull o ddiogelu ac amddiffyn dioddefwyr mewn rhai enghreifftiau a godwyd, a thrafododd y grŵp yr angen am hyfforddiant parhaus ar fregusrwydd ymysg swyddogion ac mewn asiantaethau partner.

Ymateb yr Heddlu i Ddiogelwch Menywod a Merched

Trafododd y grŵp adborth pobl ifanc i dîm y Comisiynydd ar y modd roeddent yn teimlo'n fwyfwy anniogel mewn mannau cyhoeddus oherwydd digwyddiadau cenedlaethol diweddar. Amlinellodd Heddlu De Cymru ei ddull gweithredu o ran diogelwch menywod a merched, ac, o ystyried marwolaeth drasig Sarah Everard, rhoddwyd cipolwg cynhwysfawr i'r grŵp ar broses fetio'r heddlu a dull Heddlu De Cymru o fynd i'r afael ag achosion o gamymddwyn rhywiol ymysg swyddogion yr heddlu.

Stopio a Chwilio

Trafododd y grŵp y cyfraddau anghymesuredd hiliol sy'n gysylltiedig â stopio a chwilio yn Ne Cymru. Nododd y grŵp fod yr anghymesuredd yn lleihau ond ceisiodd sicrwydd gan yr heddlu bod gwaith parhaus yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu. Amlinellodd yr heddlu ei ddull atebolrwydd a chraffu uwch yn y maes hwn, a thrafododd y grŵp bwysigrwydd parhaus bod swyddogion yn cael hyfforddiant mewn perthynas â rhagfarn ddiarwybod.

## Cyd-bwyllgor Moeseg Annibynnol

Caiff y pwyllgor hwn ei redeg ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'n cynnwys aelodau annibynnol allanol ac mae ganddo gadeirydd annibynnol. Mae'r pwyllgor yn cwrdd bob chwarter ac yn trafod yr heriau moesegol sy'n wynebu'r heddlu, gyda'r nod o gynnig barn annibynnol. Yn ystod 2021-22, roedd y materion a ystyriwyd yn cynnwys:

Camddefnyddio Sylweddau Ymysg Swyddogion a Staff

Trafododd y pwyllgor beth y dylai ddigwydd pan fydd gan swyddogion a staff sy'n gweithio i Heddlu De Cymru broblemau camddefnyddio sylweddau. Gwnaethant ystyried a ddylid cefnogi unigolion yn y sefyllfa hon a'u trin fel bod ganddynt salwch, neu a ddylid delio â nhw drwy brosesau troseddol/camymddwyn yr heddlu. Roedd y pwyllgor o'r farn bod angen gwahaniaethu rhwng y rheini sy'n hunangyfeirio eu caethiwed a'r rheini a gafodd eu dal yn camddefnyddio. Cytunwyd y dylai

swyddogion a staff yr heddlu arfer y graddau uchaf o broffesiynoldeb, ond ei bod dal yn bwysig trin pawb fesul achos. Roedd aelodau'r pwyllgor o'r farn y dylai'r heddlu sicrhau dulliau cyfathrebu da â swyddogion ac na ddylai staff sy'n hunanadrodd i gael cymorth gael eu diswyddo'n awtomatig.

Defnydd yr Heddlu o'r Cyfryngau Cymdeithasol

Trafododd y pwyllgor y modd y mae'r heddlu yn troi fwyfwy at y cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â'r cyhoedd. Trafodwyd y cydbwysedd rhwng proffesiynoldeb gofynnol dulliau cyfathrebu'r heddlu a'r angen am rai negeseuon anffurfiol a doniol weithiau. Teimlwyd bod cynnwys anffurfiol yn fwy tebygol o ddal sylw'r cyhoedd, ond gellid tybio hefyd bod hyn yn rhy anffurfiol mewn rhai lleoliadau. Cytunodd y pwyllgor fod y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn bwysig, ond ei bod hefyd yn bwysig asesu'r effaith o ran y modd y gellid dehongli'r negeseuon hyn.

Ymateb Swyddogion i Hiliaeth Bersonol

Trafododd y pwyllgor gymhlethdod bod camau yn cael eu cymryd yn erbyn swyddogion am ateb yn ôl yn eiriol ar ôl wynebu camdriniaeth hiliol barhaus gan aelodau'r cyhoedd. Roedd y pwyllgor yn deall, er ei bod yn ofynnol i bob swyddog ddilyn y Cod Moeseg ym mhob agwedd ar eu hymddygiad, bod hefyd angen i'r sefydliad ddeall y graddau y gallai camdriniaeth hiliol effeithio ar wydnwch personol rhywun a'r modd y dylid ystyried hyn mewn unrhyw ymateb gan yr heddlu i ymddygiad.

Defnyddio Dulliau Stopio a Chwilio

Trafodwyd anghymesuredd stopio a chwilio o fewn y grŵp. Roedd y data'n parhau i ddangos bod pobl ethnig leiafrifol yn cael eu stopio a'u chwilio mewn modd anghymesur o gymharu â phobl wyn. Roedd yr heddlu wedi ystyried dulliau o leihau'r anghymesuredd hwn ac roedd y gyfradd wedi gostwng. Roedd cyfyng-gyngor moesol yn bodoli o ran p'un a ellid rhoi'r gorau i ddefnyddio'r pŵer neu ei ddefnyddio'n llawer llai fel un ffordd o leihau'r anghymesuredd. Roedd perygl y gallai hyn arwain at lefelau uwch o droseddu ac y bydd mwy o ofn troseddu ymysg y cyhoedd. Roedd y pwyllgor yn dal i gytuno mewn egwyddor â'r defnydd o'r pŵer, ond pwysleisiodd yr angen am brosesau gwell i'r cyhoedd graffu ar y defnydd o'r pwerau.

## Y Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae'r pwyllgor hwn yn gweithredu ar y cyd rhwng y Comisiynydd a'r heddlu. Mae'n cynnwys aelodau annibynnol, ac mae ganddo gadeirydd annibynnol. Mae'r pwyllgor yn cynnig swyddogaeth oruchwylio a monitro, yn benodol mewn perthynas â

materion ariannol ac archwilio. Yn ystod 2021-22, roedd y materion a ystyriwyd yn cynnwys:

- Cyflwyno cyfrifon
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiadau archwilio a dderbyniwyd mewn perthynas â Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd
- Adroddiadau ac argymhellion gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
- Cofnodion risgiau, ansicrwydd a materion yr heddlu.

## Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb statudol i weithredu Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Mae hyn yn galluogi aelodau annibynnol gwirfoddol o'r cyhoedd i ymweld yn ddirybudd â phobl a gedwir yn nalfeydd yr heddlu, 24 awr y dydd ac ar unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn. Mae'r cynllun hwn yn rhan bwysig arall o rôl craffu a goruchwylio'r Comisiynydd a'i dîm. Yn ystod 2021, gwnaed cyfanswm o 67 o ymweliadau â dalfeydd yn ardal yr heddlu, a siaradodd ein gwirfoddolwyr yn uniongyrchol â 179 o'r unigolion a oedd yn cael eu cadw mewn dalfeydd am eu lles. Codwyd unrhyw faterion a phryderon drwy ein proses adrodd ac aeth swyddogion a staff dalfeydd i'r afael â nhw.

## Panel Craffu ar Gamerâu Fideo a Wisgir ar y Corff

Yn ystod 2021-22, sefydlwyd panel newydd ar y cyd, sy'n cynnwys aelodau annibynnol o Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG) ac aelodau o Grŵp Cynghori Annibynnol yr Heddlu (IAG). Mae'r panel hwn yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu recordiadau o gamerâu fideo a wisgir ar y corff gan swyddogion yr heddlu sydd wedi stopio a chwilio pobl neu ddefnyddio grym. Caiff y fideos eu dewis ar hap ag aelod annibynnol o'r panel ac yna cânt eu chwarae'n llawn i'n panel. Caiff aelodau'r panel eu gwahodd i roi sylwadau ar yr hyn y byddant yn ei weld a'i glywed, gan roi adborth hanfodol ar ddefnydd yr heddlu o bwerau. Yn ystod y flwyddyn, gwyliodd y panel recordiadau o ddulliau stopio a chwilio ynghyd â swyddogion yr heddlu yn defnyddio grym.

## Gwaith Goruchwylio a Chraffu Arall

Yn ogystal â'r gwaith craffu a wneir drwy Fyrddau a grwpiau a amlinellir yn yr adroddiad hwn, gwnaed gwaith goruchwylio a monitro ychwanegol gan dîm y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys mynychu ‘Paneli Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys’, lle cafodd detholiad o achosion troseddol a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys eu hystyried o ran tegwch a phriodolrwydd.

Hefyd, cafodd cwynion cyhoeddus a wnaed i Heddlu De Cymru eu hasesu ar hap gan y tîm, er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n ystyried yr achosion mewn modd priodol a theg a'i fod yn defnyddio dulliau priodol i ymchwilio iddynt. Adolygwyd recordiadau o gamerâu fideo a wisgir ar y corff gan swyddogion yr heddlu gan y tîm fel y gellid asesu achosion o stopio a chwilio a'r defnodd o rym yn annibynnol o ran priodolrwydd a thegwch. Hefyd, cafodd ffurflenni stopio a chwilio a'r defnydd o rym a gwblhawyd gan swyddogion eu hasesu o ran cywirdeb a thegwch.

## Casgliadau

Mae'r gwaith goruchwylio a chraffu a wnaed yn ystod 2021-22 wedi arwain at nifer o argymhellion, y mae Heddlu De Cymru yn ymrwymedig i weithio tuag atynt lle y bo'n bosibl. Bydd gwaith parhaus i fonitro ac adolygu cynnydd yn mynd rhagddo o fewn rhaglen graffu'r Comisiynydd ar gyfer 2022-23. Mae rhagor o wybodaeth am ein dulliau craffu a goruchwylio, gan gynnwys cofnodion o'n Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd, ar gael ar ein gwefan.

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn ymrwymedig i sicrhau bod gwaith craffu Heddlu De Cymru yn weithgarwch teg a chadarnhaol, sydd â'r nod o nodi arferion da lle y bo modd, ac i herio'r heddlu mewn modd cymesur lle y bo'n briodol a lle gellir gwneud gwelliannau ar ran y cyhoedd.

Diolch i'r dioddefwyr troseddau, i aelodau'r cyhoedd, asiantaethau partner a chynghorwyr annibynnol sydd wedi cyfrannu'n helaeth at y gwaith craffu a goruchwylio yn ystod y flwyddyn.

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

## I gael rhagor o wybodaeth am eich Comisiynydd, dilynwch ni:

**/commissionersw**

www.southwalescommissioner.org.uk

## Neu cysylltwch â ni drwy:


commissioner@south-wales.police.uk

01656 869366

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Tŷ Morgannwg
Pencadlys yr Heddlu
Heol y Bont-faen
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3SU


## Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg

### Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg